**CYNULLIAD CENEDLAETHOL CYMRU**

OFFERYNNAU STATUDOL

# 2000 Rhif 1079 (Cy. 72)

# TAI, CYMRU

## Rheoliadau Digartrefedd (Cymru) 2000

### NODYN ESBONIADOL

*(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Rheoliadau)*

Nid yw person sy'n ddarostyngedig i reolaeth mewnfudo o fewn ystyr Deddf Lloches a Mewnfudo 1996 yn gymwys ar gyfer cymorth tai o dan Rhan VII o Ddeddf Tai 1996 (digartrefedd) onid yw mewn dosbarth a ragnodir mewn perthynas â Chymru gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru (adran 185)(2)). Caiff Cynulliad Cenedlaethol Cymru wneud darpariaeth o ran disgrifiadau eraill o bersonau sydd i'w trin at ddibenion Rhan VII fel personau o dramor nad ydynt yn gymwys ar gyfer cymorth tai (adran 185(3)).

O dan adran 194 o Ddeddf Tai 1996 caiff awdurdod tai lleol roi hysbysiad ei fod yn bwriadu peidio ag arfer ei bŵer i sicrhau llety o dan yr adran honno. Rhaid rhoi hysbysiad o'r fath ddim llai na'r cyfnod rhagnodedig cyn y diwrnod a bennir ynddo.

O dan adran 198 o Ddeddf Tai 1996 un o'r amodau dros gyfeirio achos digartrefedd i awdurdod arall yw bod y ceisydd wedi'i roi mewn llety yn ardal yr awdurdod y gwneir y cais iddo yn awr yn unol â chais blaenorol a gafodd ei wneud o fewn y cyfnod rhagnodedig i'r awdurdod arall hwnnw.

Mae Rheoliadau Digartrefedd (Lloegr) 2000 yn rhagnodi dosbarthiadau o bersonau at ddiben adran 185(2), yn gwneud darpariaeth ar gyfer disgrifiadau o bersonau at ddiben adran 185(3), yn rhagnodi'r cyfnod at ddiben adran 194 ac yn rhagnodi'r cyfnod at ddiben adran 198.

**NATIONAL ASSEMBLY FOR WALES**

STATUTORY INSTRUMENTS

# 2000 No. 1079 (W. 72)

# HOUSING, WALES

## The Homelessness (Wales) Regulations 2000

### EXPLANATORY NOTE

*(This note does not form part of the Regulations)*

A person who is subject to immigration control within the meaning of the Asylum and Immigration Act 1996 is not eligible for housing assistance under Part VII of the Housing Act 1996 (homelessness) unless he is of a class prescribed in relation to Wales by the National Assembly for Wales (section 185(2)). The National Assembly for Wales may make provision as to other descriptions of persons who are to be treated for the purposes of Part VII as persons from abroad who are ineligible for housing assistance (section 185(3)).

Under section 194 of the Housing Act 1996 a local housing authority may give notice that they propose to cease exercising their power to secure accommodation under that section. Such notice must be given not less than the prescribed period before the day specified in it.

Under section 198 of the Housing Act 1996 one of the conditions for referral of a homelessness case to another authority is that the applicant was placed in accommodation in the district of the authority to whom his application is now made pursuant to a previous application made within a prescribed period to that other authority.

The Homelessness (England) Regulations 2000 prescribe classes of persons for the purpose of section 185(2), make provision for descriptions of persons for the purpose of section 185(3), prescribe the period for the purpose of section 194 and prescribe the period for the purpose of section 198.

Mae'r Rheoliadau hyn yn darparu bod y darpariaethau hynny yn Rheoliadau Digartrefedd (Lloegr) 2000 yn effeithiol yng Nghymru, ac mewn perthynas â Chymru yn diddymu Rheoliadau Digartrefedd 1996 a Rheoliadau a'u diwygiodd.

These Regulations provide for those provisions of the Homelessness (England) Regulations 2000 to have effect in Wales, and revoke in relation to Wales the Homelessness Regulations 1996 and Regulations which amended them.

OFFERYNNAU STATUDOL

# 2000 Rhif 1079 (Cy. 72)

# TAI, CYMRU

## Rheoliadau Digartrefedd (Cymru) 2000

*Wedi'u gwneud* — *30 Mawrth 2000*

*Yn dod i rym* — *1 Ebrill 2000*

Mae Cynulliad Cenedlaethol Cymru yn gwneud y Rheoliadau canlynol drwy arfer y pwerau a roddwyd i'r Ysgrifennydd Gwladol gan adrannau 185(2) a (3), 194(6) a 198(4) o Ddeddf Tai 1996 **(a)** ac a freiniwyd yn y Cynulliad Cenedlaethol bellach i'r graddau y mae'n arferadwy yng Nghymru **(b)**.

**Enw, cychwyn a chymhwyso**

**1.**–(1) Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau Digartrefedd (Cymru) 2000 a deuant i rym ar 1 Ebrill 2000.

(2) Mae'r Rheoliadau hyn yn gymwys i Gymru yn unig.

**Cymhwyster ar gyfer cymorth tai**

**2.** Bydd Rheoliadau 3, 4, 5 a 6 o Reoliadau Digartrefedd (Lloegr) **(c)** yn cael effaith yng Nghymru a bydd i'r mynegiadau a ddefnyddir yn y Rheoliadau hynny yr un ystyr ag a roddir iddynt gan Reoliad 2 o'r Rheoliadau hynny.

**Diddymu**

**3.** Diddymir y Rheoliadau canlynol mewn perthynas â Chymru -

(a) Rheoliadau Digartrefedd 1996**(ch)**;

(b) Rheoliadau 4 a 5 o Reoliadau Dyrannu Tai a Digartrefedd (Diwygio) 1997**(d)**;

(c) Rheoliad 3 o Reoliadau Dyrannu Tai a Digartrefedd (Diwygio) (Rhif 2) 1997**(dd)**.

(a) 1996 p.52.

(b) Gweler Gorchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Trosglwyddo Swyddogaethau) (O.S. 1999/672).

(c) O.S. 2000/70.

(ch) O.S. 1996/2754; diwygiwyd gan O.S. 1997/631 a O.S. 1997/2046.

(d) O.S. 1997/631.

(dd) O.S. 1997/2046.

STATUTORY INSTRUMENTS

# 2000 No. 1079 (W. 72)

# HOUSING, WALES

## The Homelessness (Wales) Regulations 2000

*Made* — *30th March 2000*

*Coming into force* — *1st April 2000*

The National Assembly for Wales makes the following Regulations in exercise of the powers given to the Secretary of State by sections 185(2) and (3), 194(6) and 198(4) of the Housing Act 1996 **(a)** which are now vested in the National Assembly so far as exercisable in Wales **(b)**.

**Citation, commencement and application**

**1.**–(1) These Regulations may be cited as the Homelessness (Wales) Regulations 2000 and shall come into force on 1st April 2000.

(2) These Regulations apply to Wales only.

**Eligibility for housing assistance**

**2.** Regulations 3, 4, 5 and 6 of the Homelessness (England) Regulations **(c)** shall have effect in Wales and expressions used in those Regulations shall have the meaning given to them by Regulation 2 of those Regulations.

**Revocation**

**3.** The following Regulations are revoked in relation to Wales -

(a) The Homelessness Regulations 1996**(d)**;

(b) Regulations 4 and 5 of the Allocation of Housing and Homelessness (Amendment) Regulations 1997**(e)**;

(c) Regulation 3 of the Allocation of Housing and Homelessness (Amendment) (No.2) Regulations 1997**(f)**.

(a) 1996 c.52.

(b) See the National Assembly for Wales (Transfer of Functions) Order 1999 (S.I. 1999/672).

(c) S.I. 2000/701.

(d) S.I. 1996/2754; amended by S.I. 1997/631 and S.I. 1997/2046.

(e) S.I. 1997/631.

(f) S.I. 1997/2046.

Llofnodwyd ar ran Cynulliad Cenedlaethol Cymru o dan adran 66(1) o Ddeddf Llywodraeth Cymru 1998 **(a)**.

30 Mawrth 2000

Llywydd y Cynulliad Cenedlaethol

Signed on behalf of the National Assembly for Wales under section 66(1) of the Government of Wales Act 1998 **(a)**.

30th March 2000

*D. Elis Thomas*

The Presiding Officer of the National Assembly

(a) 1998 p.38

(a) 1998 c.38.

OFFERYNNAU STATUDOL

# 2000 Rhif 1079 (Cy. 72)

# TAI, CYMRU

## Rheoliadau Digartrefedd (Cymru) 2000

STATUTORY INSTRUMENTS

# 2000 No. 1079 (W. 72)

# HOUSING, WALES

## The Homelessness (Wales) Regulations 2000

©Ⓗ Hawlfraint y Goron 2000

Argraffwyd a chyhoeddwyd yn y Deyrnas Unedig gan The Stationery Office Limited o dan awdurdod ac arolygiaeth Carol Tullo, Rheolwr Gwasg El Mawrhydi ac Argraffydd Deddfau Seneddol y Frenhines.

© Crown copyright 2000

Printed and Published in the UK by the Stationery Office Limited under the authority and superintendence of Carol Tullo, Controller of Her Majesty's Stationery Office and Queen's Printer of Acts of Parliament.

ISBN 0-11-090046-4

9 780110 900469

**£2.00**

WO6090 05/00 ON